

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 25/04/2022 7:00yh – O Bell - COVID-19

John Brinley Jones (Cad)	Thomas Victor Jones	Greta Hughes	David Andrew Parry
Gwenllian Davenport Hughes	Alan Harper-Smith	Ian Goronwy Williams	Wiliam Roger Jones
Alaw Ceris	Ann L Williams (Cyfieithydd)	Pat Humphreys (Clerc)	

Mae'r Cyfarfod heno yn cael ei gynnal dros y we gyda meddalwedd Zoom yn unol â chyfarwyddiadau COVID-19

Gofynnodd y cadeirydd i bawb sydd eisiau cyfrannu yna iddynt roi eu llaw i fyny a pan fydd angen pleidleisio i bawb wneud drwy ddangos llaw.

1. Ymddiheuriadau

Dim.

2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol

Dim.

3. Cofnodion Pwyllgor 28/03/2022

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.

Cynnig: David Andrew Parry Eilio: Ian Goronwy Williams

Materion yn codi o'r cofnodion

1. Yn dilyn y pwyllgor diwethaf trefnwyd cyfarfod rhwng aelodau Cyngor Cymuned Llanbedrog a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i drafod cael biniau ychwanegol yn y maes parcio a'r ymateb oedd eu bod am roi hysbysfyrdau i fyny i ofyn i bawb fynd a'u sbwriel adra hefo nhw yn hytrach na rhoi biniau ychwanegol yno. Mae nhw hefyd am fynd i lawr i'r traeth yn y boreau os oes amser ganddynt i godi sbwriel. Dywedodd Alan Harper Smith fod pobol yn sal iawn am fynd a'u sbwriel adra hefo nhw felly ni fydd neb yn cymeryd sylw o'r hysbysfyrdau, mae plant yn gadael sbwriel difrifol ar y traeth drwy gydol y flwyddyn ac mae sbwriel yn broblem enfawr ym mhob man felly mae o yn cynnig ein bod yn monitro'r sefyllfa dros yr haf. Mae Greta Hughes yn siomedig iawn hefo ymateb yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol oherwydd ar ddiwedd y dydd maent yn gwneud elw da o'r maes parcio a'u cyfrifoldeb nhw ydi cadw'r lle yn daclus.

4. Unrhyw Fater Brys

Dim.

5. Ebst Iwan Hughes – Modurdy Llanbedrog

Derbyniwyd dau ebost gan Iwan Hughes yn lleisio pryder ynglŷn â'r gyffordd o flaen Modurdy Llanbedrog. Maent yn ail ddatgilygu y modurdy ac felly fe fydd mwy o adnoddau ar gael yno a fydd yn arwain at fwy o draffig i mewn ac allan o'r safle. Mae'r safle yma yn beryglus gyda sawl damwain wedi bod yma ar hyd y blynyddoedd ac mae'r Cyngor Cymuned wedi cael

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod 25/04/2022 7:00yh – O Bell - COVID-19

trafodaethau yn y gorffennol gyda Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd ynglŷn â hyn pan wrthodwyd rhoi cylchfan yno. Mae'r llinellau gwyn wedi cael eu ail baentio ar y ffordd rhai blynyddoedd yn ôl ond nid yw'n teimlo y bydd hyn yn ddigonol i sicrhau diogelwch modurwyr ac yn gofyn i'r Cyngor Cymuned ail gydio yn y drafodaeth hefo Cyngor Gwynedd ac hefyd Heddlu Gogledd Cymru i ofyn am eu presenoldeb nhw ar yr A499 i atal y gor-yrru difrifol sydd ar y ffordd. Mae hyn wedi bod yn broblem ers blynyddoedd ac mae erthygl amdano yn yr Herald gan Iwan Hughes nôl yn 1999. Mae'r cadeirydd yn cytuno hefo'r ebyst ac mae Greta Hughes yn cytuno hefyd ac yn cynnig y dylid monitor llif traffic ar ôl i'r gwaith ar y modurdy gael ei gwblhau. Yn ychwanegol i hyn mae Thomas Victor Jones yn credu fod creu ystad Cysgod y Cwmwd wedi ychwanegu at y broblem gan fod dipyn mwy o geir yn defnyddio'r gyffrodd ar ben yr holl draffig sy'n dod y ffordd yna o gyfeiriad y traeth. Mynegodd Alaw Ceris bryder ynglŷn â gor-yrru ar y ffordd yma ac nid oes neb yn arafu lawr ddigon buan cyn yr arwydd 40mya a cymaint o bobol yn cerdded ar hyd ochor y ffordd gyferbyn a mynedfa Crugan a Coron. Gofynnodd Ian Goronwy Williams os oes modd trafod ymestyn y 40mya yn ôl i Garreg y Defaid ac mae David Andrew Parry yn cytuno. Dywedodd y clerc bod Adran Priffyrdd wedi dweud wrthi rhai misoedd yn ôl bod ymgynghoriad yn mynd i gael ei wneud ar newid y cyfyngiad cyflymder o 60mya i 50 mya ar y ffordd o Pwllheli i Abersoch felly mae angen eu atgoffa o hynny.

Penderfyniad: Y clerc i gysylltu hefo Heddlu Gogledd Cymru ac Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd i ofyn wrthynt fonitro y llif traffic yn fanwl wrth y gyffordd i'r mordurdy ac ail edrych ar gael cylchfan yno ac i ofyn am gyfarfod i drafod y sefyllfa ar ôl i'r cyfnod monitro ddod i ben. Mae angen gofyn hefyd pa bryd y bydd yr Ymgynghoriad yn cychwyn.

6. Llwybrau

Mainc sydd wedi cael ei llosgi ar Mynydd Tir Cwmwd

Cafwyd diweddariad gan y clerc. Fe roddwyd hysbyseb ar 'facebook' yn gofyn os oedd rhywun yn adnabod y teulu ac fel gafodd y clerc amryw o ymatebion yn 'tagio' pobol gyda'r un enw felly mae neges breifat wedi cael ei anfon at y bobol yma ond hyd yn hyn nid oes dim wedi ei dderbyn yn ôl ganddynt. Awgrymodd Gwenllian Davenport Hughes i'r clerc anfon cais ffrind at y bobol yma er mwyn iddynt fedru ymateb i'r neges breifat ac mae hi am wneud hynny. Dywedodd y cadeirydd bod yna ormod o fenciau yn y cae chwarae ac os oes angen cael mainc yn lle yr un yma neu unrhyw un arall yn y pentref yna bysai'n syniad i ddefnyddio un o'r rhai sydd yn y cae chwarae.

Lleoli mainc newydd sydd gan y Cynghorydd Angela Russell

Yn dilyn y pwyllgor diwethaf fe gysylltodd y clerc gyda Angela Russell i gael llun o'r fainc ac fe anfonodd lun yn syth i'r clerc ac fe anfonodd y clerc ef ymlaen i'r aelodau a dywedodd Angela Russell bod y Cyngor Cymuned wedi pasio mewn pwyllgor llawn flynyddoedd yn ôl i roi'r fainc yma ar ben Mynydd Tir Cwmwd. Gofynnodd Thomas Victor Jones os y byddai modd rhoi'r fainc yma yn lle yr un sydd wedi ei llosgi a cytunodd Alaw Ceris gan fod y clerc wedi trio cysylltu gyda'r teulu ond heb dderbyn ymateb. O hyn allan fe fydd rhaid cael fwy o drefn ar y meinciau yma a bob un newydd sydd yn cael eu lleoli o hyn allan, mae nhw ar y rhestr eiddo ynghyd â'u lleoliad felly fe fydd angen mynd drwy'r rhestr i'w adolygu. Dywedodd Greta Hughes y bydd rhaid mynd a'r fainc sydd wedi ei llosgi oddi yna gan ei bod yn berygl os y

Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

Cofnodion Cyfarfod 25/04/2022 7:00yh – O Bell - COVID-19

byddai rhywun yn eistedd arni a cytunodd David Andrew Parry a cynnigiodd i fynd yna i'w nol a mynd a'r un sydd gan Angela Russell yno yn ei lle.

Penderfyniad: y clerch i anfon rhestr eiddo i'r aelodau i gyd iddynt weld lle mae lleoliad bob mainc ac mae Ian Goronwy Williams a Greta Hughes wedi cynnig mynd i dynnu lluniau ohonynt er mwyn gweld pa gyflwr sydd iddynt. Mae David Andrew Parry, Ian Goronwy Williams a'r Cadeirydd am fynd i nôl y fainc sydd wedi cael ei llosgi a mynd a'r fainc sydd gan Angela Russell yno yn ei lle.

7. Y Fynwent

Y Fynwent Newydd – Cais Cynllunio

Cafwyd diweddariad gan y Cadeirydd. Mae'r cadeirydd wedi gyrru ebost leuan Elis Owen ymlaen i weddill yr aelodau sy'n dangos cynllun lleoliad a mesuriadau a disgrifiadau o'r tir sydd ym mherchnogaeth Cyngor Cymuned Llanbedrog a dderbyniwyd gan y Gofrestrfa Tir. Mae'r tir sydd wedi ei farcio ar y cynllun yma yn ddipyn llai na'r tir sydd wedi ei farcio ar gynllun lleoliad a gyflwynwyd i'r Adran Gynllunio hefo'r cais cynllunio gwreiddiol nol yn 2010 ac felly mae'r cadeirydd yn cynnig i'r aelodau fynd i'r cae i'w farcio allan gyda mesuriadau cynllun y Gofrestrfa Tir a dderbyniwyd gan leuan Elis Owen. Mae angen marcio hefyd lle mae'r beipan garthffosiaeth â'r beipan ddŵr er mwyn gweld faint o'r tir sydd ar ôl i greu mynwent. Gan mai cynllun y Gofrestrfa Tir sydd yn gywir, oherwydd hwn sy'n dangos y rhodd a roddwyd i Cyngor Cymuned Llanbedrog gan leuan Elis Owen, mae dryswch ynglŷn â pham fod cynllun y cais cynllunio gwreiddiol yn wahanol ac yn dangos fod gan Cyngor Cymuned Llanbedrog fwy o dir yn eu perchnogaeth. Gofynnodd Greta Hughes os oes hawl gan y Cyngor Cymuned i wneud ffordd ar hyd y tir sydd dal ym mherchnogaeth leuan Elis Owen neu dim ond hawl tramwyo yn unig sydd yna? Ac atebodd y cadeirydd y bydd rhaid cael hawl i wneud hynny felly fydd rhaid trafod hyn hefo'r tir feddiannwr. Awgrymodd Greta Hughes y dylai pawb ddod at eu gilydd i drafod hyn ar ôl yr etholiad gan fod pawb yn gyfrifol ar ddiwedd y dydd. Nid yw Dŵr Cymru wedi newid eu sylwadau ar y cais newydd ac felly dal ddim yn hapus ac mae angen ymateb i'r pwyntiau a godwyd ganddynt cyn i'r cais cynllunio symud ymlaen. Cynnigiodd Wiliam Roger Jones erbyn y cyfarfod nesaf fod y cadeirydd ac is-bwyllgor penodol yn dod at eu gilydd i drafod y fynwent newydd ac yna yn adrodd yn ol i'r pwyllgor llawn ac mae Greta Hughes yn cytuno fod angen trafod y mater ond y dylai pawb fod yn rhan o'r drafodaeth gan fod pawb yn gyfrifol a pawb angen gwybod beth sydd yn mynd ymlaen. Penderfyniad: ei roi ar agenda mis nesaf fel yr eitem gyntaf i'w thrafod ar ôl y pwyllgor blynyddol er mwyn trefnu diwrnod i gael cyfarfod wyneb yn wyneb hefo'r holl aelodau i fynd drwy'r cynlluniau a cael cyfarfod safle hefyd. Mae taliad wedi ei dderbyn y mis yma gan leuan Elis Owen am rent tir y fynwent newydd felly mae'n rhaid edrych ar y cytundeb i weld os oes yna gynllun sy'n dangos perchnogaeth tir ynghlwm iddo.

Ebost Iwan Hughes – Giatiau'r fynwent

Derbyniodd y clerch ebost gan Iwan Hughes yn atgoffa'r Cyngor Cymuned bod giatiau'r fynwent angen eu paentio a cadarnhaodd y cadeirydd fod Roger Fisher wedi cychwyn ar y gwaith a'i fod wedi cysylltu hefo Iwan Hughes i adael iddo wybod.

Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

Cofnodion Cyfarfod 25/04/2022 7:00yh – O Bell - COVID-19

8. Cae chwarae

Cafwyd diweddariad gan Alaw Ceris. Mae hi wedi cael cyfarfod hefo aelodau o Social Farm and Gardens er mwyn cael grant i sefydlu dolydd blodau gwyllt yn y cae chwarae, mae nhw yn mynd i helpu ysgrifennu 'management plan' ar gyfer sefydlu hyn ac o ganlyniad bydd modd prynu 'ride on mower' i fedru cynnal y cae chwarae fel fod dim angen ei dorri i gyd pan fydd y dolydd wedi cael eu sefydlu dim ond torri llwybr drwyddo. Mae'r rhan yma ar y funud yn cael ei dorri gan Cyngor Gwynedd unwaith y mis i fyny at 6 toriad y flwyddyn ond mae nhw yn gadael y gwellt sydd ddim yn ddelfrydol ar gyfer sefydlu dolydd blodau gwyllt nac ar gyfer plant yn chwarae pel droed felly fe fydd y 'ride on mower' yn help mawr. Gofynnodd y cadeirydd os oes help i gael i glirio yr ochor sydd ar lôn Abersoch gan fod coed wedi disgyn yno ac mae Alaw Ceris yn cytuno bod angen ei glirio a meddwl be fedrith gael ei wneud yna. Dywedodd Thomas Victor Jones bod coed wedi cael eu plannu yna ychydig o flynyddoedd yn ôl ond bod yna falu wedi bod yna, mae'r tir yn serth ofnadwy felly mae angen ei ffensio er mwy diogelwch. Gofynnodd Alan Harper Smith os oes modd cael rhandiroedd yno a dywedodd Alaw Ceris bod grantiau i gael i wneud hynny hefyd ac os y byddai digon o ddiddordeb yna y byddai modd edrych i mewn iddo. Mae bwriad cyd-weithio gyda'r ysgol i sefydlu y dolydd blodau gwyllt a bod y plant yn mynd i dderbyn pecynnau ar gyfer sefydlu dolydd blodau gwyllt yn yr ysgol ac hefyd yr un fath hefo'r Cylch Meithrin sydd yn ffordd o gysylltu'r gymuned hefo'r cae chwarae unwaith eto. Awgrymodd Greta Hughes y byddai modd cysidro cael paneli solar ar yr ochor serth sydd ar lôn Abersoch gan ei fod yn gwynebu y cyfeiriad iawn ac nad oes modd gwneud llawer hefo fo oherwydd ei fod yn serth, a dywedodd Thomas Victor Jones y byddai hynny yn ffordd o gael trydan rhad i'r neuadd. Gofynnodd Alaw Ceris os oedd rhywun yn gwybod lle mae goriad y garej a beth sydd yn y garej a dywedodd Greta Hughes fod y goriad gan ei mab hi felly mae Alaw Ceris am ei nôl.

9. Coronavirus covid-19

- Diweddariad
- Polisi lechyd a Diogelwch

Dywedodd y cadeirydd wrth y clerc am dynnu eitem 9 oddi ar yr agenda o hyn allan gan fod y Llywodraeth wedi codi pob cyfyngiad covid 19 ac hefyd ei dynnu o benawd yr agenda a'r cofnodion.

10. Neuadd y Pentref

Codi prisiau llogi'r neuadd

Nid yw'r wybodaeth wedi ei dderbyn ynglŷn â prisiau llogi'r neuadd felly mae angen cael gwybod faint yw'r ffi fesul awr. Cynnigiodd Thomas Victor Jones bod yr eitem yn cael ei drafod mis nesaf a gobeithio y bydd y wybodaeth wedi cael ei dderbyn erbyn hynny. Mae Barbara Warren wedi gofyn i'r cadeirydd faint i godi ar ddiwrnod yr etholiad ac mae o wedi dweud £75 ond mae Thomas Victor Jones yn meddwl fod angen codi £100 felly mae'r cadeirydd am ddweud wrth Barbara Warren. Aeth y clerc drwy'r datganiadau banc eto i ddweud beth sydd yn mynd allan bob mis a beth sydd yn dod i fewn bob mis felly mae'r wybodaeth yna wrth law. Mae Alan Harper Smith yn methu deallt sut nad oes neb yn gwybod faint yw'r ffi am logi'r neuadd ac mae angen gwneud mwy o ddefnydd o'r neuadd a bod

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod 25/04/2022 7:00yh – O Bell - COVID-19

angen i'r Cyngor Cymuned annog hynny. Eglurodd y cadeirydd bod yna bwyllgor yn gyfrifol am redeg y neuadd yn y gorffennol a oedd yn cynnwys un aelod o bob corff/clwb/sefydliad yn y pentref e.e. y capel, snwcer, clwb ieuenctid, sefydliad y merched, downsio, carnifal a.y.y.b. ond ers rhai blynyddoedd nid yw'r pwyllgor yn bodoli oherwydd nad oes unigolion o'r gymuned yn fodlon bod ar y pwyllgor ac wrth gwrs fe ddaeth covid wedyn i roi diwedd ar pobeth. Erbyn hyn aelodau Cyngor Cymuned Llanbedrog yw ymddiriedolwyr y neuadd ac mae Barabara Warren hefo rhestr o bawb sydd yn defnyddio y neuadd. Dywedodd Alaw Ceris bod angen eistedd i lawr hefo Barbara Warren a mynd drwy papurau'r neuadd er mwyn ceisio cael y wybodaeth angenrheidiol ac efallai trafod ail gychwyn y pwyllgor. Dywedodd Thomas Victor Jones ei fod wedi bod ar pwyllgor y neuadd ac yn drysorydd am bymtheg mlynedd, mae'r neuadd yna i'w defnyddio gan y gymuned ond nid lle y Cyngor Cymuned yw perswadio pobol ei defnyddio os nad yw pobol eisiau ei defnyddio, mae i fyny i'r gymdeithas ei hun fel pob cymdeithas arall ym Mhen Llŷn greu clwb a gwneud defnydd ohoni. Awgrymodd Alaw Ceris bod angen hysbysebu'r ffaith fod Wifi yn y neuadd ac y byddai rhoi poster i fyny yn atgoffa pobol y pentref ei bod ar gael i'w llogi, a cynnigiodd y cadeirydd i ddewis aelod o'r pwyllgor newydd nesaf i fod yn gyfrifol am hybu'r neuadd drwy facebook y Cyngor Cymuned ac ategodd Ian Goronwy Williams bod hysbys yn cael ei roi yn Llanw Llŷn. Penderfyniad: ail-sefydlu is-bwyllgor penodol ar gyfer y neuadd yn y cyfarfod nesaf.

Taliadau wedi eu cymeradwyo

Cyflog y Clerc – Pat Humphreys	£366.73
HMRC – PAYE Mis 1	£91.60
Ann Llwyd – Cyfieithydd	£160.00
Pat Humphreys – Ad-daliad blodau Sul y Blodau ar y ddau fedd – o gyfrif Nat West	£30.00

Taliadau wedi eu derbyn

Ieuan Ellis Owen – Rent tir 01/04/2020-31/03/222 – 2 flynedd.	£428.00
--	----------------

Ceisiadau Cynllunio

Unrhyw gais fydd wedi dod i law erbyn y cyfarfod.

C22/0346/38/CC – The Boathouse, 2 Glan y Mor, Lôn Nant Iago, Llanbedrog – Gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed.

Penderfyniad: Gadael i Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd a'r Swyddog Coed wneud penderfyniad.

Gohebiaeth

1. **Clerks & Council Direct** – Newyddlen
2. **Un Llais Cymru** – Hyfforddiant
3. **CLILC** - 23.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 25/04/2022 7:00yh – O Bell - COVID-19

4. **Llywodraeth Cymru** - Datganiad ysgrifenedig y Gweinidogion Cam 2 y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth
 5. **GIG** - AP Covid-19
 6. **Llywodraeth Cymru** - Diweddariad - Cofio 2020
 7. **Llywodraeth Cymru** - 30.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC
 8. **CLILC** - 02.10.2020 Diweddariad am y coronafeirws
 9. **Panel Annibynnol Cymru** - Ymgynghoriad Adroddiad Blyneddol Drafft ar Gydabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2021
 10. **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** - Cylchlythyr Medi 2020
 11. **Un Llais Cymru** - Hyfforddiant ar lein - Cymorth Cynllunio Cymru
 12. **Un Llais Cymru** – Gwybodaeth am clyw
 13. **Un Llais Cymru** - rhaglen gweminarau hyfforddiant 2020/21
- Penderfyniad: penderfynwyd tynnu'r gohebiaeth i ffwrdd oddi ar yr agenda gan eu bod yna ers amser y cyn glerc.

Cais am gyfraniad

Dim.

Cafwyd cais gan y cadeirydd ar gyfer agenda mis nesaf sef y toiledau i lawr wrth y traeth. Mae un o'r glanhawyr wedi datgan bod eisiau codi safon y toiledau tu fewn gan fod ambell i beth angen eu adnewyddu. Cyngor Gwynedd sydd piau'r toiledau gyda'r Cyngor Cymuned a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cyfrannu tuag atynt. Mae'r clerc am gysylltu hefo Cyngor Gwynedd cyn y pwyllgor nesaf i ofyn os oes modd gwneud gwaith arnynt ac mae'r aelodau am fynd yno i weld sut gyflwr sydd y tu mewn i'r toiledau ac efallai tynnu ychydig o luniau.

Gofynnodd Alaw Ceris os oes modd cynnig i'r ysgol gael defnydd o'r hysbysfwrdd sydd ar yr allt i lawr at y siop gyferbyn ac Eisteddfa ac mae pawb wedi cytuno.

Mae'r cadeirydd wedi gofyn i Roger Fisher lanhau yr holl hysbysfyrddau a'u trwsio os ydynt wedi torri. Mae Alan Harper Smith yn meddwl fod hyn yn syniad da er mwyn hysbysebu'r neuadd.

Cadeirydd yn cau'r cyfarfod am 8.55y.h. ac yn dymuno pob lwc i bawb yn yr etholiad.